Cyngor Tref Amlwch Town Council
Cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gyhnaliwyd drwy Zoom 22/3/2022 am 7 o'r gloch
Minutes of the Full Council meeting held via Zoom 22/3/2022 at 7pm.

Presennol/Present:
Gareth Winston Roberts OBE, Myrddin Owens, Gordon Warren, Alan Wood, Gareth Thomas, Meg Roberts

Ymddiheuriadau/Apologies:
Liz Wood, Chris Williams *(derbyniwyd wedi'r cyfarfod/received post meeting)*

Wrth law/In attendance:
Carli Evans Thau (clerc/clerk), Hywel Hughes (cyfieithydd/translator), Jane Jones (Hosbis Dewi Sant/St David's Hospice)

1 Croeso ac Ymddiheuriadau / Welcome and Apologies

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Myrddin Owens a nodwyd na fyddai Liz Wood yn gallu bod yn bresennol. Enwebwyd Gordon Warren i gadeirio'r cyfarfod. Cynigiwyd gan Myrddin Owens gyda Alan Wood yn eilio.

Croesawyd Gareth Thomas i'w gyfarfod cyntaf yn dilyn ei gyfethol ar y Cyngor.

Myrddin Owens welcomed all present and noted that Liz Wood was unavailable to attend. Gordon Warren was nominated to chair the meeting. Proposed Myrddin Owens, seconded Alan Wood.

Gareth Thomas was welcomed to his first meeting having been co-opted to the Council.

2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Gareth W Roberts a Myrddin Owens – cynllunio/planning 15 Stryd Salem

3 Jane Jones – Hosbis Dewi Sant / St David's Hospice

Diolchodd Jane Jones i'r Cyngor am y gwahoddiad i fynychu ar ran Hosbis Dewi Sant. Rhoddodd drosolwg o'r gwasanaethau a ddarperir yng Nghaergybi a'r nifer o bobl a'u teuluoedd a gefnogwyd yn y 12 mis ers agor y cyfleuster yng Nghaergybi. Amcangyfrifir mai'r gost flynyddol o redeg yr Hosbis fydd oddeutu £400k gyda dim ond 8% o'r gost yn cael ei darparu trwy arian gan y llywodraeth. Roedd angen ymgyrchu lleol i godi'r gweddill.

Roedd Ms Jones fel y swyddog codi arian yn cysylltu gyda gwahanol gyrff i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a gynigir ac i ennyn cefnogaeth leol. Cadarnhawyd er bod yr hosbis yng Nghaergybi bod y gwasanaethau ar gael i holl drigolion Ynys Môn. Gobeithir sefydlu grŵp 'Cyfeillion yr Hosbis' yn Amlwch er dibenion codi arian.

Bu i'r Cynghorwyr ganmol gwaith yr Hosbis a'r manteision ar gyfer trigolion lleol pan gyfyd yr angen. Nodwyd mai elusen gofrestredig yw'r Hosbis a'i bod yn weithredol mewn tair o siroedd Gogledd Cymru – yr Hosbis yng Nghaergybi ydy'r cyfleuster diweddaraf.

Nodwyd petai'r elusen yn dymuno gwneud cais i'r Cyngor am arian bod angen darparu mor fuan â phosibl i'r clerc, gopi o'i chyfansoddiad, ei pholisi iaith Gymraeg a'i chyfrifon diweddaraf, fel y gellir trafod y mater yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor cyllid.

Cytunwyd mai da o beth fyddai i godi ymwybyddiaeth mewn digwyddiadau penodol mewn lleoliadau lleol. Awgrymwyd y dylid rhoi y ddolen i wefan yr Hosbis ar wefan y Cyngor Tref a hynny yn yr adran ar ddolenni busnesau.

Gadawodd Ms Jones y cyfarfod am 19.20.

Jane Jones thanked the Council for the invitation to attend on behalf of St David's Hospice. Ms Jones gave an overview of the services provided at Holyhead and the number of people and their families that had been supported in the 12 months since opening the facility at Holyhead. It is estimated that it costs in the region of £400k per annum to provide and maintain the Hospice, with

only 8% provided by government funding, the balance being provided via public fundraising.

Ms Jones explained that at a fundraising officer, she is contacting various groups to raise awareness of the services offered and gain local support. It was confirmed that although the hospice was based in Holyhead, the services provided were for all Anglesey residents. It is hoped to develop a 'Friends of the Hospice' group in Amlwch for fundraising purposes.

Members commended the work of the Hospice and the benefits to local residents in need. It was noted that the Hospice was a registered charity operational over the three counties of North Wales – the Holyhead Hospice being the newest facility.

It was noted that should the charity wish to apply to the council for funding, a copy of the constitution, Welsh language policy and most recent accounts should be provided via the clerk as soon as possible to be considered at the next finance committee meeting.

It was agreed that raising awareness at specific events and locations would be beneficial. It was suggested that a link to the Hospice be included on the Town Council's website amongst the business links.

Ms Jones left the meeting at 19.20.

4 Mike Plant – Gwasanaeth Tan / Fire Service

Bu gohurio'r drafodaeth gan nad oedd Mr Plant wedi ymuno â'r cyfarfod.
The discussion was deferred as Mr Plant had not joined the meeting.

5 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, cynnig Gareth Roberts, eilio Meg Roberts.
Minutes of the last meeting were approved, proposed Gareth Roberts, seconded Meg Roberts.

6 Materion yn Codi / Matters Arising

6.1 Presenoldeb Cynghorwyr / Councillors' attendance
Cadarnhaodd y clerc bod CSYM wedi ymateb gan roi nifer o ddolenni arlein i gyfeirio at yr wybodaeth a ofynnwyd amdani. Cytunwyd anfon yr e-bost at yr holl Gynghorwyr.

The clerk confirmed that IACC had responded providing various online links to the relevant information. Agreed that the email should be forwarded to all members.

6.2 Marchnad Amlwch Market
Gofynnodd Meg Roberts os oedd mwy o wybodaeth wedi dod i law gan GSYM gan nad oedd y system unffordd na'r parcio ar gyfer yr anabl wedi eu gweithredu.

Meg Roberts asked whether there was further information from IACC as neither the one way system nor the disabled parking have bene implemented.

6.3 Datblygiad Awel y Mor Development
Mynegwyd siom o ran cynnwys e-bost Christian Branch mewn ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd.

Disappointment was noted as to the content of Christian Branch' email in response to the questions asked.

6.4 Cwyn i'r Ombwdsmon / Complaint to the Ombudsman
Rhoddwyd diweddariad fel rhan o adroddiad y pwyllgor cyllid.
Update to be provided as part of the finance committee report.

7 Pwyllgorau Allannol / External Meetings

Bu i'r Cynghorwyr gadarnhau cael adroddiad a baratowyd gan Myrddin Owens yn dilyn cyfarfod WelTag ar deithio llesol Mwy o wybodaeth i ddilyn.

Members confirmed receipt of a report prepared by Myrddin Owens following a WelTag meeting on active travel. More information will follow.

8 Adroddiad Pwyllgor Cyllid / Finance Committee Report

Rhoddodd Myrddin Owens grynodeb o'r cyfarfod diwethaf. Yn dilyn cysylltu gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth daeth yn amlwg y byddai angen gwaith golygu manwl ar ffeiliau sain y cyfarfodydd o hyn ymlaen. Roedd y pwyllgor cyllid yn argymell bod y cyngor llawn yn rhoi'r gorau i recordio cyfarfodydd o hyn allan. Nid oes gofyniad cyfreithiol ar y cyngor i recordio cyfarfodydd. Cynigiwyd gan Gareth Roberts gyda Alan Wood yn eilio a phawb yn cytuno.

Cafodd nifer o daliadau eu cymeradwyo a gellir cael manylion llawn ohonynt gan y clerc.

Bu i Myrddin Owens ofyn am gadarnhad nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn anwybod i'r cyfarfod, ac fe stopiwyd y recordiad. Rhoddwyd diweddariad ar y mater yn ymwneud gyda'r Ombwdsman a'r Heddlu. Diweddarwyd y Cynghorwyr bod cwyn wedi ei gyflwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth gyda chrynodeb o'r camau a gymerwyd a'r hyn a ddaeth i'r fei. Fe ail ddechreuwyd recordio.

Hysbyswyd y Cynghorwyr o Gais Rhyddid Gwybodaeth yn gofyn am fanylion y nifer o Fwslemiaid Prydeinig a gyflogir gan y Cyngor. Roedd ymateb eisoes wedi ei anfon. Nodwyd nad oedd y Cyngor yn gofyn am fanylion o ran crefydd person ac felly dylid fod wedi ymateb 'dim yn gwybod' yn hytrach na 'dim'.

Cafodd yr ymgynghoriad ar y ddeddfwriaeth newydd ei ohirio tan ar ôl yr etholiad ar gyfer y cyngor newydd – bydd y nifer o aelodau a etholir neu a gyfetholir yn effeithio ar y pwerau sydd ar gael i'r cyngor.

Gan fod gan y pwyllgor cyllid yr hawl i weithredu ar faterion staffio bu i Myrddin Owens adrodd er gwybodaeth am y newidiadau i gyflogau staff o 1/4/2022 a wnaed i adlewyrchu y cynnydd mewn costau byw a chwyddiant.

Myrddin Owens gave a summary of the last meeting. Following interaction with the ICO it has become apparent that the audio files of recorded meetings would need to be heavily edited in future. The finance committee recommended that the full council stop recording future meetings. There is no legal requirement for the council to record meetings. Proposed Gareth Roberts, seconded Alan Wood, all in favour.

A number of payments were approved, full details of which are available with the clerk as usual.

Myrddin Owens asked for confirmation that no members of the public were present unknowingly, and the recording of the meeting was paused. An update was given on matters relating to the Ombudsman and Police. Members were informed that a complaint had been submitted to the ICO and a summary of actions and findings given. The recording of the meeting resumed.

Members were notified of an FOI request regarding the number of British Muslims employed by the Council. A response has already been forwarded. It was noted that the Council does not ask for details of a person's religion and thus the response should have been 'don't know' rather than 'none'.

The consultation on the new legislation was deferred to the new council post-election – the number of elected and co-opted members will affect the powers available to the council.

For information, as the finance committee have the powers to act on staffing matters, Myrddin Owens confirmed the changes to staff salaries from 1/4/2022 taking into account the rise in living wage and inflation.

9 Adroddiad Pwyllgor Economaidd / Economic Committee Report

Fe gohiriwyd yr ymweliad safle gyda Rehau. Nid oedd diweddariad pellach o ran safle Octel.
The site visit at Rehau was postponed. There is no further update regarding the Octel site.

10 Adroddiad Pwyllgor Parciau a Mannau Agored / Parks and Open Spaces Committee Report

Daw cais gan yr heddlu i osod cysgodfan ieuenctid ym mharc Lon Goch, nodwyd fodd bynnag

bod difrod pellch i blanhygion eto gan bobl ifanc. Cytuno trafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor gan nodi na fyddai gwario ar adnoddau os nad fyddent yn cael eu parchu. Nodwyd bod goleuadau solar i'w gosod yn y parc yn fuan.

A request had been received from the police to install a youth shelter in the park at Lon Goch. It was noted however that further damage to plants had been caused by young people. It was agreed to discuss this further at the committee's next meeting with an emphasis that no further expenditure would be made on resources if they are not going to be respected. It was noted that solar lights would be installed in the park in the near future.

11 Materion Cynllunio / Planning Matters

11.1 Ceisiadau / Applications

Bu ystyried y ceisiadau canlynol / *the following applications were considered:*

- Green Bank (FPL/2022/14) – dim gwrthwynebiad/no objection
- Morven (HHP/2022/66) – dim gwrthwynebiad/no objection
- Gwesty Bull Bay Hotel (VAR/2022/4) – dim gwrthwynebiad/no objection
- 15 Stryd Salem (FPL/2022/80) – dim gwrthwynebiad/no objection
- 2 Trecastell Park (HHP/2022/24) – dim gwrthwynebiad/no objection

11.2 Penderfyniadau / Decisions

Cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn:

IACC planning decisions were noted as follows:

- Maes Ednyfed (FPL/2022/18) – cais wedi dynnu nol/application withdrawn
- 29 Glorian HHP/2022/48) – caniatad/granted

12 Diweddariad Porthladd / Port Update

Dywedodd Alan Wood eu bod yn dal i ddisgwyl atebion gan y cynghorwyr sir sydd wedi cael eu briffio gan swyddogion CSYM. Unwaith eto nid oedd y cynghorwyr yn bresennol i rannu'r wybodaeth yn unol â chais CSYM fel ymateb i gwestiynau'r Cyngor Tref.

Alan Wood noted that answers were still anticipated from the county councillors who have been briefed by IACC officers, yet again, no councillors present to share the information as requested by IACC in answer to the Town Council's questions.

13 Cyngrhair Twrcelyn Alliance

Bu gohurio'r drafodaeth a chytuno cadw'r eitem ar yr agenda nes y cyfarfod nesaf.

The discussion was deferred, agreed to keep the agenda item for the next meeting.

14 Cynrychiolaeth Clwb y Gorlan Representation

Dywedodd Myrddin Owens bod cyfansoddiad Clwb y Gorlan (elusen) yn datgan y gellir cael cynrychiolydd o'r hyn oedd hen Gyngor Bwrdeistref Amlwch. Cytunwyd i ethol cynrycholydd ar ôl yr etholiad.

Myrddin Owens noted that the Clwb y Gorlan (charity) constitution notes a representative from what was the Amlwch Borough Council, agreed to appoint a representative following the election.

15 Cwestiynnau i'r Cynghorwyr Sirol / Questions to the County Councillors

Nid oedd y cynghorwyr sir yn bresennol a bu i'r aelodau fynegi eu siom am y diffyg presenoldeb parhaus.

There were no county councillors present and members noted their disappointment at the continued lack of attendance.

16 Gohebiaeth / Correspondence

Bu i'r clerc gadarnhau bod eitemau o ohebiaeth yn cael eu hanfon ymlaen i'r aelodau fel mater o drefn.

Roedd y Grŵp Digwyddiadau Cymunedol wedi gwneud cais i gael defnyddio Parc Lon Goch ar gyfer digwyddiad ym mis Awst. Cytunwyd yn unfrydol yn ddibynnol ar yr asesiad risg arferol a gofynion yswiriant. Y clerc i gadarnhau'r dyddiad gyda'r grŵp.

The clerk confirmed that items of correspondence were routinely forwarded by email to members.

The Community Events Group have requested to use Lon Goch Park for an event in August, agreed unanimously subject to usual risk assessment and insurance requirements. The clerk to confirm the date with the group.

17 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor 26/4/2022 am 7 o'r gloch drwy zoom.
The next council meeting will be held 26/4/2022 at 7pm via zoom.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.30. *The meeting closed at 20.30.*

Gordon Warren
Cyngor Tref Amlwch Town Council

CET03/2022